# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - EBRILL 2016

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 20 Ebrill 2016 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol Rhostryfan** |

| | |
|---|---|
| a) | **Croeso**<br>Croesawyd pawb gan yr Is-Gadeirydd Rhys Owen. Yn bresennol roedd Tom Ellis, Elwyn Jones, Elin Evans, Michelle Williams, Rhys Owen, Les Williams, Cyng. Aeron M Jones, Jason Hunt |
| b) | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Ll Williams a Neal Williams.<br><br>Nid oedd Gwilym V Thomas a Nerys Evans yn bresennol. |
| c) | **Datgan Buddiant** |
| d) | **Cadarnhau cofnodion 16 Mawrth 2016**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir |
| e) | **Materion i'w trafod:**<br><br>**a) OP Huws – Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos**<br>Croesawyd OP Huws i'r cyfarfod. Roedd ei ymweliad yn dilyn y cyfarfodydd 'Her Gwynedd' gan Cyngor Gwynedd a'r sefyllfa ariannol heriol sydd yn ein gwynebu. Awgrymwyd yn y cyfarfodydd y dylai Cynghorau Cymuned fod yn cydweithio mwy ac ystyried codi praesept blynyddol er mwyn ariannu rhai o wasanaethau'r Cyngor. Mae bwriad cynnal cyfarfod cychwynnol rhwng y Cynghorau Cymuned cyfagos i weld beth sydd yn bosib a thrafod syniadau. Gofynnwyd i enwebu 4 person, bydd y cyfarfod yn ystod mis Mai, dyddiad i'w gadarnhau. Cynnigwyd yr enwau canlynol:<br>1. Elwyn Jones<br>2. Rhys Owen<br>3. Jason Hunt<br>4. Les Williams<br><br>**b) Cais nawdd Cae Chwarae Rhosgadfan**<br>Pwyllgor Cae Chwarae yn talu ffi blynyddol oddeutu £280 am yswiriant, Zurich eisiau £325 yn ychwanegol ar premiwm presennol y Cyngor Cymuned i ychwanegu y Cae Chwarae i'r polisi. Clerc i holi Zurich os oes modd dod ar pris i lawr cyn i ni gytuno.<br><br>**c) Tir ger Sain**<br>Dim diweddariad<br><br>**d) Meddygfa Rhostryfan**<br>Adroddwyd nad yw'r feddygfa wedi bod ar agor y 3 dydd llun diwethaf. Mae pryderon fod ymgais i geisio cau y feddygfa, os nad ydy'r feddygfa ar agor, mae'n anodd profi fod defnydd. Aelodau i gadw golwg ar amseroedd agor y feddgfa a Clerc i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd.<br><br>**e) 'Speed Humps' – Rhosgadfan.**<br>Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd eu bod wedi gwisgo ar yr ochrau. Derbyniwyd yr ymateb canlynol: "Mae'r arolygwr ffyrdd wedi cynnwys y lleoliad i dderbyn gwaith clytio (patching) yn y tymor byr. Bydd peiriannydd yn asesu'r safle yn fuan er mwyn penderfynu pa waith pellach sydd ei angen"<br><br>**f) Arwydd cyflymder ger Bodfan,Rhosgadfan.** |

| | |
|---|---|
| | Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd a derbyn cadarnhad mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am gynnal yr arwydd. Byddai cost adnewyddu oddeutu £1,500 - £2,000. Clerc i holi a oes modd cael pris mwy pendant ac os oes bosib mynd at gwmniau eraill am brisiau, mae hefyd angen edrych ar yr arwydd yn Ffrwd Cae Du.<br><br>g) **Hysbysfwrdd Rhosgadfan**<br>Cyflwr wedi dirywio, Clerc yn cadarnhau fod Wyn yn mynd i edrych arno**.** |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Bylbiau o dan arwyddion pentrefi – Clerc yn cadarnhau nad oes fawr o flodau wedi dod fyny ac yn bydd yn holi'r garddwr beth sydd wedi digwydd. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | a) Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod):<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 19 Ebrill 2016</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **9,336.74**<br>+ Taliad Llwybrau C.Gwynedd <u>795.87</u><br>**Balans ar derfyn busnes 20 Ebrill 2016 10,132.61**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **4,133.12**<br>- 101351 Clwb Felin Llanwnda 50.00<br>- 101342 Designer Signs Ltd 43.20<br>- 101347 Lleu 100.00<br>- 101357 Cyflog Clerc Mawrth 424.40<br>- 101356 Swyddfa'r Post 95.60<br>- 101348 Mynwent Hermon 100.00<br>- 101355 Antur Nantlle 108.00<br>+ Claddiad <u>290.00</u><br><br>**Balans ar derfyn busnes 19 Ebrill 2016: 3,501.92**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20 Ebrill 2016:</u>**<br>Cyflog Clerc Ebrill 438.51<br>Cyllid y Wlad Ebrill 99.00<br>Cyngor Gwynedd – Cae Chwarae Rhostryfan 1.00<br>Cae Chwarae Rhosgadfan 1,000.00<br>JD Roberts <u>65.00</u><br>**Cyfanswm 1,603.51**<br><br>**b) Trefniadau archwilio 2015/16**<br>Nododd y Clerc ei bod wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar i dderbyn gwybodaeth am y trefniadau archwilio newydd. Bydd Cwmni BDO yn cymryd drosodd gan Hacker Young a mae'r gofynion adrodd wedi cynyddu. Mae angen cyflwyno'r llyfrau i John Roberts erbyn canol Mehefin. Mae gofyn hefyd i fod yn cynhyrchu asesiad risg blynyddol a gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Cytunwyd i'r Is-Grwp Cyllid gyfarfod 6yh, cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymyned ar 18 Mai 2016. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>3 cais cynllunio – dim sylw na gwrthwynebiad |

| | |
|---|---|
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>a) Pryderon wedi eu cyflwyno am y sefyllfa parcio yn Rhosgadfan gan drigolyn lleol, Clerc i yrru ymlaen at Cyngor Gwynedd.<br>b) Llythyr wedi ei dderbyn gan John Griffith ynglyn a llosgi ar dir comin – Clerc i gysylltu yn ol yn gofyn am rhagor o wwybodaeth.<br>c) Trigolyn o Frondeg, Rhostryfan wedi cysylltu – pryderon yn parhau am y sefyllfa llifogydd. Cyng AMJ yn cadarnhau fod cyfarfod safle wedi ei drefnu gyda'r perchnogion, Cyngor Gwynedd, y Rheilffordd a datblygwyr y safle yr wythnos hon. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>JH – Brigau wedi disgyn ar llwybr Bryngwyn, JH am edrych mewn iddo ac adrodd nol yn y cyfarfod nesaf.<br>EE – Problem sbwriel ar Lon Eifion wedi gwaethygu a nid oes biniau sbwriel o gwbl.<br>EE – Ar croesfan Ffrwd Cae Du mae gwaith gosod lampau newydd yn ddiweddar ond mae'r contractwyr wedi gadael llanast, mae angen twtio.<br>MW– Un o'r arwyddion 'Ci ar dennyn' llwybr Bryngwyn yn pwyntio y ffordd anghywir.<br>LW – Problem gyrru drwy pentref Rhosgadfan, yn enwedig heibio stad Bro Cadfan, yn beryglus, mae nifer o blant yn chwarae yn ymyl.<br>TE – Giant rhwng Cefn Hendre a Traean angen ei thrwsio, cyflwr difrifol.<br>RO – Problemau parcio ar hyd ymyl y lon o'r Bwrdd Dwr i fyny yn Dinas yn parhau.<br>EJ – Angen sortio tap mynwent Cefnfaes.<br><br>**Dyddiad: 18 Mai 2016**<br>**Lleoliad: Canolfan Llanwnda** |